# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 13 Ionawr 2016

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3522

# (307)

## 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd y 10 cwestiwn cyntaf. Cafodd cwestiynau 1 ac 8 eu grwpio. Gwahoddodd y Dirprwy Lywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus

Dechreuodd yr eitem am 14.17

Gofynnwyd yr 11 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Dirprwy Lywydd dros dro lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 3 Cynnig i Ethol Aelodau i Bwyllgor

Dechreuodd yr eitem am 14.59

**NDM5921 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3:

(i) yn ethol John Griffiths (Llafur) yn aelod o, ac yn Gadeirydd, i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad;

(ii) yn ethol Jeff Cuthbert (Llafur) fel eilydd ar gyfer y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ar gyfer John Griffiths (Llafur).

**Derbyniwyd y Cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 4 Bil Cymru Drafft

Dechreuodd yr eitem am 14.59

**NDM5911 David Melding (Canol De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn croesawu adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar Fil Cymru drafft.

**Derbyniwyd y Cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**NDM5912 David Melding (Canol De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn nodi barn y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, os bydd Llywodraeth y DU yn bwrw ymlaen â'r amserlen bresennol ar gyfer Bil Cymru drafft, y dylai ymrwymo i gydgrynhoi cyfraith gyfansoddiadol Cymru yn ddwyieithog yn ystod y Senedd bresennol.

**Derbyniwyd y Cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**NDM5913 David Melding (Canol De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn nodi barn y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y dylid diwygio Bil Cymru drafft i gael gwared â'r prawf angenrheidrwydd neu osod prawf yn seiliedig ar briodoldeb yn ei le.

**Derbyniwyd y Cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**NDM5914 David Melding (Canol De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn nodi barn y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y dylid diwygio y Bil Cymru drafft i gynnwys system i ofyn am gydsyniadau Gweinidog y Goron sy'n adlewyrchu'r model yn Neddf yr Alban 1998.

**Derbyniwyd y Cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**NDM5915 David Melding (Canol De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn nodi barn y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y dylid diwygio Bil Cymru drafft i leihau'n sylweddol

nifer y cymalau cadw a'r cyfyngiadau penodol mewn ffordd sy'n cyd-fynd â deddfwrfa aeddfed, effeithiol ac atebol a fydd yn cael pwerau treth incwm.

**Derbyniwyd y Cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**NDM5916 David Melding (Canol De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn nodi barn y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y dylid diwygio Bil Cymru drafft i gynnwys awdurdodaeth benodol fel bod Deddfau Cymru yn berthnasol i Gymru yn unig ac yn addasu cyfraith Cymru a Lloegr fel sy'n briodol i'w gorfodi o fewn rheswm.

**Derbyniwyd y Cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 5 Cyfnod pleidleisio

Nid oedd cyfnod pleidleisio.

## 6 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 19.11

**NDM5917 William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Cenedl sy'n cynnig lloches? Y rôl y gall Cymru ei chwarae yn yr argyfwng ffoaduriaid.

Daeth y cyfarfod i ben am 19.36

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 19 Ionawr 2016**